

# Gwelliannau o Landudoch i Draeth Poppit

Lleoliad: Landudoch



- Mae'r cynllun hwn yn ceisio darparu llwybr di-draffig oddi ar y ffordd ochr yn ochr â ffordd y B4546 i Draeth Poppit sef pellter o 1.8 milltir. Mae hon yn rhan beryglus iawn o'r ffordd, yn gul gyda thraffig cyflym, troadau dall a chopauon dall a gall gyrwyr fod yn gyrru i gyfeiriad yr haul heb weld cerddwyr, beicwyr na phlant. Mae cyflymder y traffig gyda gwrychoedd uchel yn amharu ar welededd o flaen y gyrrwr, ymhell o fod yn ddelfrydol ac mae'n golygu bod y cynllun yn angenrheidiol o ran diogelwch ac annog gyrwyr i newid i ddefnyddio dulliau teithio annibynnol cynaliadwy.
- Mae'n gyrchfan poblogaidd iawn i lawer o drigolion lleol ac ymwelwyr.
- Cynigiwyd y fenter hon gyntaf yn 2006 gan y gymuned a sefydlwyd gweithgor lleol yn 2013. Yn dilyn hyn, lansiwyd deiseb ar-lein (ym mis Chwefror 2014) yn galw ar Gyngor Sir Penfro i ddarparu llwybr cerdded a beicio diogel a hygyrch o Landudoch i Draeth Poppit.
- O ganlyniad mae llawer o gefnogaeth gan y gymuned i'r cynllun sy'n dangos unwaith bydd y llwybr ar waith y bydd yn arwain at newid dulliau teithio.



Gwelir enghreifftiau o'r llwybr cerdded presennol i Draeth Poppit yn y lluniau.



Cludiant CSP  
Tîm Strategaeth



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

Draeth Poppit